

Swan Lake

Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur neu gerdyn argraffu
- Siswrn
- Glud neu dâp selo dwy ochr ludiog
- Tiwb cardbord byr
- Pinnau neu bensiliau lliwio


Argraffwch y ffeil ar gyfer darnau corff yr alarch ar gerdyn neu bapur gwyn. Os ydych chi'n defnyddio papur sy'n eithaf llipa, gallwch ludo'r papur ar ddarn o gerdyn, neu focs grawnfwyd efallai.

Lliwiwch y goron a defnyddiwch rhai deunyddiau crefft i'w haddurno.

Nodwch lythyren gyntaf enw person sy'n annwyl i chi yn y galon binc, neu eu henw llawn, os yw'n ffitio.

Torrwch o amgylch y siapiau'n ofalus. Mae darn ar gyfer y pen, gwddf, dwy adain, dwy droed, calon a choron. Gofynnwch i oedolyn eich helpu os oes angen.

Torrwch bapur gwyn i'r maint cywir a'i lapio o amgylch y tiwb cardbord, gan ei sicrhau gyda glud neu dâp gludiog, er mwyn creu corff gwyn yr alarch.



Defnyddiwch lud neu dâp i osod adenydd eich alarch ar gefn eich tiwb cardbord, gan sicrhau bod y plu sydd wedi'u lliwio'n wynebu ymlaen.

Yna, gosodwch y goron ar ben eich alarch, a chysylltu'r cyfan i du blaen eich tiwb cardbord.

Gludwch goesau eich alarch i du blaen eich tiwb cardbord, a phlygwch y traed yn wynebu i fyny i helpu eich alarch i sefyll.

Yn olaf, gallwch gysylltu'r galon i un o adenydd yr alarch, neu ei gorff, neu ei gosod i mewn i frig y tiwb cardbord yn y cefn, fel neges gyfrinachol!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus.